

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Hydref 2015

STATWS: CYDYMFFURFEDD

CATEGORI: LLYTHYR AT WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Dyletswydd Orfodol i Adrodd ar gyfer achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yng Nghymru a Lloegr (FGM):

Dyddiad dod i ben / Adolygiad:

Dim

I'w Weithredu gan:

Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd

Camau i'w cymryd erbyn:

Ar unwaith

Anfonydd:

Dr Ruth Hussey, Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol

Enw(au) Cyswilt AIGC yn Llywodraeth Cymru :

Anthony Davies, Polisi Gofal Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, CF10 3NQ; 02920 823121

Dogfennau amgaeedig: Dim

Dr Ruth Hussey OBE
Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I: Prif Weithredwyr, GIG Cymru

CC: Arweinwyr FGM ar gyfer Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd

23 Hydref 2015

Annwyl Brif Weithredwyr

CYFLWYNO DYLETYSWYDD ORFODOL I ADRODD AR GYFER ACHOSION O ANFFURFIO ORGANAU CENHEDLU BENYWOD YNG NGHYMRU A LLOEGR

Bydd i ddarpariaethau newydd yn Neddf Troseddau Difrifol 2015 ar gyfer mynd i'r afael â FGM nifer o oblygiadau ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru a Lloegr. Y pwysicaf o'r rhain yw cyflwyno dyletswydd orfodol i adrodd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd rheoleiddiedig 31 Hydref 2015. Y ddyletswydd yw adrodd achosion o FGM (wedi'u nodi neu'u datgelu) ymhlith merched o dan 18 oed yn uniongyrchol i'r heddlu o fewn mis.

Dylai'r arweinydd FGM yn eich bwrdd neu'ch ymddiriedolaeth iechyd fod yn ymwybodol o'r datblygiad hwn a bydd yn eich cynorthwyo i ledaenu'r neges hon i'r holl gydweithwyr yn eich sefydliad. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol rheoleiddiedig. Mae canllawiau gweithdrefnol ar sut i gyflawni'r ddyletswydd hon wedi cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ac maent ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/469448/FGM-Mandatory-Reporting-procedural-info-FINAL.pdf

Hoffwn dynnu'ch sylw at agwedd bwysig ar y fframwaith cyfreithiol sy'n cynnwys adrodd ar FGM. Yn gyntaf, mae Deddf Troseddau Difrifol 2015 yn ei wneud yn ofynnol i'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol rheoleiddiedig yng Nghymru adrodd yn uniongyrchol i'r heddlu o fewn mis am unrhyw achosion o FGM sydd wedi'u nodi neu'u datgelu ar gyfer merched o dan 18 oed. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys yn uniongyrchol i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac nid y cyflogwr.

Yn ail, mae ein canllawiau statudol *Gweithio Gyda'n Gilydd*, sy'n seiliedig ar weithdrefnau amddiffyn plant Cymru, yn cynnwys fframwaith ystyrlon i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yng Nghymru adrodd eu hamheuon am gam-drin plant. O Ebrill 2016, bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn atgyfnerthu'r arferion presennol drwy osod dyletswydd ar y gwasanaeth iechyd, yr heddlu, awdurdodau lleol a gwasanaethau prawf i roi gwybod i'r awdurdod lleol am bob plentyn neu oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu'i esgeuluso neu sy'n cael ei gam-drin neu'i esgeuluso.

Mae'r ddyletswydd olaf hon yn fwy cynhwysfawr na'r ddyletswydd o dan Ddeddf Troseddau Difrifol gan ei bod yn gymwys i'r sefydliad, yn gymwys i ferched a menywod o bob oed ac yn gymwys i achosion hysbys o FGM, achosion sydd mewn risg, ac achosion a amheir. Yn ychwanegol, mae'n rhaid cyflawni'r ddyletswydd hon o fewn 48 awr i'r awdurdod lleol yn hytrach nag o fewn mis yn uniongyrchol i'r heddlu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i sicrhau mwy o aliniad o ran goblygiadau gweithredol y ddwy ddyletswydd hyn. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach fel rhan o waith adolygu'r canllawiau statudol ar ddiogelu oedolion a phlant.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddwch cystal â sicrhau bod eich staff yn gwbl ymwybodol o'r dyletswyddau gwahanol pan fyddant yn dod i rym. Os bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoleiddiedig yn rhoi gwybod am achos o FGM i'w arweinydd diogelu o dan weithdrefnau safonol diogelu plant, ni fyddai hyn yn cyflawni'r ddyletswydd o dan y Ddeddf Troseddu Difrifol i roi gwybod am yr achos yn uniongyrchol i'r heddlu. Fodd bynnag, nid yw adrodd yn uniongyrchol o dan y Ddeddf Troseddu Difrifol ond yn gymwys os bodlonir meini prawf penodol.

Yn ychwanegol, hoffwn dynnu'ch sylw at nifer o faterion cysylltiedig:

- Cafodd gorchmynion amddiffyn FGM eu cyflwyno ym mis Gorffennaf 2015 a'u cyfleu gyda chanllawiau i arweinwyr FGM byrddau iechyd ar 17 Gorffennaf. Mae'r canllawiau ar gael yn:

http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/GetLeaflet.do?court_leaflets_id=12060

- Bydd Canllawiau Amlasiantaeth FGM diwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn ymgorffori Canllawiau ar Orchmynion Amddiffyn FGM ac yn atodi'r canllawiau gweithdrefnol ar y Ddyletswydd Orfodol i Adrodd. Mae'r Canllawiau Amlasiantaeth cyfredol ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilation-guidelines>

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi creu llwybr FGM er mwyn cefnogi GIG Cymru i wneud diagnosis o FGM a chyfeirio a thrin dioddefwyr yn gyson ledled Cymru. Bydd y llwybr hwn yn cael ei roi ar waith ar unwaith ledled Cymru a bydd angen ei weithredu ar y cyd â'r Canllawiau Amlasiantaeth FGM a'r Canllawiau Gweithdrefnol ar Adrodd Gorfodol FGM. Mae'r llwybr i'w weld ar wefan Plant yng Nghymru:

<http://www.childreninwales.org.uk/our-work/safeguarding/wales-child-protection-procedures-review-group/>

- Mae arweinwyr FGM yn casglu data misol ar achosion o FGM a nodwyd; mae'r rhifau hyn yn cael eu casglu ar lefel genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Os oes gennych sylwadau, byddwch cystal â'u hanfon i'r Is-adran Polisi Gofal Iechyd drwy gysylltu ag anthony.davies1@wales.gsi.gov.uk 02920 823121 neu eu hanfon at arweinydd FGM eich bwrdd iechyd lleol.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Ruth Hussey'.

DR RUTH HUSSEY OBE